Llawlyfr ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru

RHAN 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFLWYNIAD

Mae Llywodraethwyr Cymru yn ymroddedig i gefnogi llywodraethu ysgolion yn effeithiol ac i ddatblygiad personol llywodraethwyr yng Nghymru. Gobeithir felly y bydd yr wybodaeth a gynhwysir yn y llawlyfr hwn yn eich helpu i gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel llywodraethwr.

Bydd gan Lywodraethwyr Cymru ddiddordeb mewn gwybod i ba raddau yr ydych yn ystyried bod pedwerydd cyhoeddiad y llawlyfr wedi bod yn ddefnyddiol neu am unrhyw ffyrdd yr ydych yn credu y gellir gwella'r llawlyfr. Fe fyddem yn ddiolchgar petaech yn cwblhau'r ffurflen werthuso ar ddiwedd rhan 5 a'i dychwelyd at:

Llywodraethwyr Cymru
Llawr Daear, 3 Llys Oaktree
Rhodfa Mulberry
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RS
neu trwy e-bost at: contact@governorswales.org.uk.

Fe welwch gyfeiriadau at y gwasanaethau cefnogi a ddarperir ar gyfer cyrff llywodraethu gan Awdurdodau Lleol (ALl). Mae gweithgareddau'r Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr a benodir gan yr ALl yn arbennig o bwysig er mwyn galluogi cyrff llywodraethu i dderbyn gwybodaeth, cyngor, canllawiau a chefnogaeth yn ogystal â modd o gael gafael ar gyfleoedd hyfforddiant wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer anghenion y llywodraethwyr. Ceir mwy o wybodaeth ar dudalen 11.

O bryd i'w gilydd cynhyrchir ychwanegiadau ac adolygiadau i'r llawlyfr hwn yn unol â datblygiadau a newidiadau deddfwriaethol mewn llywodraethu ysgolion. Bydd diweddariadau i'r llawlyfr yn cael eu hargraffu ar wefan Llywodraethwyr Cymru: http://www.governorswales.org.uk/llawlyfr/.

Caiff gwybodaeth hefyd ei e-bostio'n uniongyrchol i ysgolion a Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr.

Cydnabyddiaethau

Mae Llywodraethwyr Cymru yn ddiolchgar i Gyfarwyddwyr Addysg/Cynrychiolydd Prif Swyddogion Ysgolion Cymru, Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr, a Llywodraeth Cymru am eu cyngor a'u cefnogaeth, sydd wedi cyfrannu at gynhyrchu'r canllaw hwn.

Mae'r llawlyfr hwn hefyd ar gael yn Saesneg yn:
http://www.governorswales.org.uk/handbook/

5ed Rhifyn 2011

RHAN 1

CYNNWYS Tudalen

1. Beth yw llywodraethwr? 4
2. Categorïau o lywodraethwyr ac ysgolion ac ysgolion ffederal 5
3. Cefnogaeth a hyfforddiant 11
4. Beth ydw i angen ei wybod? 12
5. Sut mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau? 18
6. Beth yn union mae llywodraethwyr yn ei wneud – y rôl atebol 19

1. BETH YW LLYWODRAETHWR?

Mae llywodraethwr yn rhywun sydd:-

- yn wirfoddolwr;
- yn poeni am addysgu, dysgu a phlant;
- yn cynrychioli pobl gyda diddordeb allweddol yn yr ysgol, yn cynnwys rhieni, staff, y gymuned leol a'r ALl;
- yn aelod o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae ysgol yn ei wneud;
- ag amser i'w roi i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill pan fo angen;
- yn fodlon dysgu;
- yn gallu gweithredu fel ffrind beirniadol sydd yn cefnogi'r ysgol ond sydd hefyd yn herio ac yn gofyn cwestiynau am sut y mae'r ysgol yn gweithio a'r safonau y mae'n eu cyflawni;
- yn ddolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr ALl a'r ysgol.

2. CATEGORÏAU O LYWODRAETHWYR AC YSGOLION

Pwy yw llywodraethwyr ysgolion?

Fe fyddwch yn darganfod bod sawl math o bobl yn dod yn llywodraethwyr ysgolion. Fel chi, bydd ganddynt reswm penodol dros wasanaethu ar y corff llywodraethu. Oherwydd y rhesymau gwahanol hyn, mae gan bob corff llywodraethu grŵp craidd o lywodraethwyr yn cynnwys:-

- rhiant lywodraethwyr;
- athrawon lywodraethwyr;
- staff lywodraethwyr;
- llywodraethwyr ALl;
- y pennaeth (yn gweithredu fel llywodraethwr o'i ddewis/dewis);

Bydd cyrff llywodraethu hefyd yn cynnwys rhai o'r llywodraethwyr canlynol, yn dibynnu ar y math o ysgol:

- llywodraethwyr cymunedol;
- llywodraethwyr cymunedol ychwanegol;
- llywodraethwyr cynrychioliadol;
- llywodraethwyr sefydledig;
- llywodraethwyr partneriaeth;
- llywodraethwyr nawdd

Yn ogystal â'r rhain bydd gan yr ysgolion uwchradd ddisgyblion lywodraethwyr cyswllt. Ceir mwy o wybodaeth ar dudalen 8.

Mae pob llywodraethwr yn rhannu yr union yr un pwerau a phrif amcanion, sef diogelu ansawdd yr addysgu a dysgu a ddarperir gan yr ysgol i godi safonau cyflawniad a chyrhaeddiad y disgyblion a'r staff a bod yn atebol i'r gymuned leol am effeithiolrwydd yr ysgol.

Cyn bo hir, byddwch yn darganfod bod y dyletswyddau y mae **pob** llywodraethwr yn eu rhannu yn llawer mwy arwyddocaol na'r amrywiaethau rhwng y gwahanol fathau o lywodraethwyr.

O bryd i'w gilydd bydd angen i chi atgoffa eich hun nad oes gennych unrhyw bwerau cyfreithiol fel unigolyn. Yn gyfreithiol mae'r pŵer yn gorwedd gyda'r corff llywodraethu cyfan, yr ydych yn un aelod ohono yn unig.

Rhiant lywodraethwyr

Caiff rhiant lywodraethwyr eu hethol fel cynrychiolwyr buddiannau rhieni plant sydd yn mynychu'r ysgol ar y pryd. Gall rhiant lywodraethwr barhau i wasanaethu hyd nes diwedd eu cyfnod o bedair blynedd, hyd yn oed os yw'r plentyn yn gadael yr ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gall rhiant lywodraethwr ddatgan ei farn/barn bersonol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu ond disgwylir i'r farn honno fod yn cynrychioli buddiannau rhieni'r ysgol.

Dylai rhiant lywodraethwr felly gadw pryderon a barn y mwyafrif o rieni mewn cof. Fodd bynnag, pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud, mae'n bwysig bod llywodraethwyr unigol yn dyfarnu drostynt eu hunain pan yn cyfrannu at benderfyniad y corff llywodraethu.

Os nad oes digon o rieni, neu os nad oes unrhyw riant yn sefyll etholiad, gall y corff llywodraethu benodi rhiant lywodraethwyr.

Athrawon lywodraethwyr

Caiff athrawon lywodraethwyr eu hethol i gynrychioli buddiannau staff eu hysgol. Er y byddant yn cyflwyno barn y staff addysgu i'r corff llywodraethu ar adegau, maent hefyd yn rhydd i ddatgan eu barn bersonol a defnyddio eu barn eu hunain wrth wneud penderfyniadau, fel unrhyw lywodraethwr arall.

Ar adegau bydd barn yr athrawon lywodraethwyr yn wahanol i farn eu pennaeth. Os felly, mae'n ddoeth i'r athro/athrawes lywodraethwr fod yn ddigon cwrtais i ddweud wrtho ef/hi cyn i'r mater arbennig gael ei drafod mewn cyfarfod llywodraethwyr.

Staff lywodraethwyr

Caiff staff lywodraethwyr eu hethol o blith y staff cefnogi (yr holl staff a gyflogir yn yr ysgol mewn swyddi ar wahân i athro/athrawes). Fe allant fod yn staff cyflogedig dan gytundeb cyflogaeth neu gytundeb am wasanaethau yn yr ysgol.

Gall staff lywodraethwyr leisio barn y staff cefnogi i'r corff llywodraethu, ac maent hefyd yn rhydd i fynegi eu barn bersonol a defnyddio eu barn eu hunain wrth gyfrannu at benderfyniadau y corff llywodraethu.

Llywodraethwyr Awdurdod Lleol

Mae llywodraethwyr Awdurdod Lleol (ALl) yn cael eu penodi gan yr ALl sy'n cynnal yr ysgol. Gall llywodraethwyr ALl gyflwyno barn yr ALl ond nid ydynt yn gynrychiolwyr o'r ALl ac ni all yr ALl ddwyn pwysau arnynt i gymryd safbwynt arbennig. Dylai ALl gyhoeddi'r broses a'r meini prawf ar gyfer dewis ymgeiswyr ar gyfer eu penodi fel llywodraethwyr ALl.

Llywodraethwyr cymunedol

Caiff y llywodraethwyr hyn wahoddiad gan lywodraethwyr eraill i ymuno â'r corff llywodraethu a chânt eu penodi gan y corff llywodraethu. Mae aelodau cymunedol yn dod â'u profiadau neu eu sgiliau eu hunain i'r corff llywodraethu ac yn gallu gweithredu fel cyswllt gyda'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Fel arfer mae llywodraethwyr cymunedol yn byw neu'n gweithio yn ardal cymuned yr ysgol ac maent yn ymroddedig i lywodraethu da a llwyddiant yr ysgol.

Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol

Caiff llywodraethwyr cymunedol ychwanegol eu henwebu gan y cyngor/cynghorau cymuned ble mae'r ysgol gynradd neu'r ysgol feithrin wedi ei lleoli mewn ardal ble ceir un neu fwy o gynghorau cymuned.

Pennaeth lywodraethwr

Bydd y pennaeth yn aelod llawn o gorff llywodraethu'r ysgol oni bai ei fod/bod yn dewis peidio â bod yn llywodraethwr. Os yw'r pennaeth yn penderfynu nad yw am fod yn llywodraethwr mae ganddo/ganddi hawl i fynychu pob cyfarfod o'r corff llywodraethu.

Mae sefyllfa arbennig y pennaeth lywodraethwr yn bwysig er mwyn cynnal perthynas dda rhwng y pennaeth a'r corff llywodraethu. Bydd y pennaeth:

- yn adrodd i'r llywodraethwyr ond hefyd yn cynnwys y llywodraethwyr yn agos yn rhediad yr ysgol (heb osgoi eu cyfrifoldeb eu hunain wrth gwrs);
- yn onest, uniongyrchol ac agored gyda llywodraethwyr;
- yn sefydlu perthynas dda gyda chadeirydd y corff llywodraethu;
- yn defnyddio iaith syml a diamwys yn hytrach na defnyddio jargon addysgol technegol;
- yn creu awyrgylch ble y bydd llywodraethwyr yn teimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol ac nid yn unig pan gynhelir cyfarfod o'r corff llywodraethu.

Llywodraethwyr sefydledig

Ceir llywodraethwyr sefydledig ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn cadw ei chymeriad crefyddol arbennig neu ei bod yn cael ei chynnal yn unol â thelerau gweithred ymddiriedolaeth.

Llywodraethwyr nawdd

Dyma berson sydd wedi rhoi neu yn rhoi cymorth ariannol sylweddol i'r ysgol neu sydd wedi darparu neu yn darparu'r ysgol gyda gwasanaethau sylweddol, neu'n cynrychioli buddiannau sefydliad neu fusnes sydd wedi darparu'r un nawdd.

Llywodraethwyr cynrychioliadol

Ceir llywodraethwyr cynrychioliadol mewn ysgolion Cymunedol Arbennig. Maent yn cynrychioli buddiannau'r bwrdd/byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG neu gyrff gwirfoddol yn gysylltiedig gyda'r ysgol. Byddant yn cymryd lle un o'r llywodraethwyr cymunedol.

Llywodraethwyr partneriaeth

Dim ond i ysgolion sefydledig y mae llywodraethwyr partneriaeth yn berthnasol. Caiff y rhain eu penodi gan y corff llywodraethu o enwebiadau gan rieni disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgol a chan aelodau eraill o'r gymuned a wasanaethir gan yr ysgol.

Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt

Caiff disgyblion lywodraethwyr cyswllt (DLC) eu henwebu mewn ysgolion uwchradd o blith aelodau cyngor yr ysgol o Flynyddoedd 11, 12 neu 13. Nod y DLC yw cynrychioli cyngor yr ysgol mewn cyfarfodydd o'r corff llywodraethu a chynrychioli'r corff llywodraethu mewn cyfarfodydd o'r cyngor ysgol. Gallant hefyd fod yn aelodau o bwyllgorau anstatudol y corff llywodraethu a gallant bleidleisio mewn cyfarfodydd pwyllgorau (ond nid yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu) os yw'r corff llywodraethu yn caniatáu hawliau pleidleisio iddynt.

Pob llywodraethwr

Mae angen i bob llywodraethwr gymryd rhan llawn yng ngweithgaredd y corff llywodraethu ac i sicrhau cysondeb trwy fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Ceir gwybodaeth bellach ar y gwahanol fathau o lywodraethwyr yn y Ffeil Ffeithiau ar wefan Llywodraethwyr Cymru ar: http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/ffeiliau-ffeithiau/

Clerc i'r llywodraethwyr

Bydd y clerc i'r llywodraethwyr yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu. Gall rôl y clerc a'r trefniadau ar gyfer penodi amrywio o un ysgol i'r llall ac yn ôl math o ysgol. Mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb ar y corff llywodraethu i benderfynu pwy ddylai weithredu fel clerc ac i benodi clerc. Bydd hefyd angen i'r corff llywodraethu penodi clerc i'r pwyllgorau statudol. Gall fod yr un person a chlerc y corff llywodraethu neu'n rhywun arall. Yn gyffredinol, y clerc sy'n galw cyfarfodydd y corff llywodraethu ac yn cadw cofnod o'r materion pwysig a drafodir a'r penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfarfodydd (gelwir y cofnod yn "cofnodion"). Mae'r clerc hefyd yn sicrhau bod pob llywodraethwr yn derbyn rhybudd digonol o gyfarfodydd ac yn sicrhau bod gwaith y corff llywodraethu yn drefnus, yn ogystal â chynnal cofrestr o lywodraethwyr ac adrodd am leoedd gwag.

Ceir gwybodaeth bellach yn **Canllaw i'r Gyfraith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol** a **Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.**

Bydd rhai ALl yn darparu gwasanaeth clercio y gall cyrff llywodraethu eu defnyddio os dewisant. Os yw corff llywodraethu'n derbyn gwasanaeth clercio'r ALl fe allant gynnig gwasanaethau ychwanegol, fel:

- cynghori'r llywodraethwyr ar bolisïau a gweithdrefnau corff llywodraethu;
- cynghori llywodraethwyr ar eu cyfrifoldebau yn ôl y gyfraith;
- darparu gwybodaeth ynglŷn ag amrywiaeth eang o faterion o bwysigrwydd i ysgolion a'u llywodraethwyr.

Nid yw'r clerc yn llywodraethwr o'r ysgol ac nid yw'n gymwys i gymryd rhan yn uniongyrchol mewn trafodaeth na phleidleisio. Fel arfer bydd cyllideb yr ysgol yn talu am gostau'r clerc.

Y Cyfarwyddwr Addysg/Cynrychiolydd Prif Swyddog Ysgolion

Gall unrhyw gorff llywodraethu wahodd y Cyfarwyddwr neu Gynrychiolydd y Prif Swyddog Ysgolion i roi cyngor i'r corff llywodraethu, egluro polisïau'r ALl neu i rannu ymarfer da o ysgolion eraill.

Mewn rhai ALl fe all y clerc i'r llywodraethwyr a chynrychiolydd y Cyfarwyddwr fod yr un person.

Mae'n bosib y bydd gan Brif Swyddog Cyllid ALl hawl i fynychu ar gyfer trafod eitemau ar yr agenda sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau, er enghraifft materion uniondeb neu reolaeth ariannol.

Oes gan bob ysgol lywodraethwyr?

Mae gan bob ysgol a gynhelir gorff llywodraethu ac mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn eu cyllid (y gyllideb ddirprwyedig) gan yr ALl sy'n eu cynnal.

Dyma'r gwahanol fathau o ysgolion:

Ysgolion Cymunedol

- wedi eu cyllido a'u cynnal yn gyfan gwbl gan ALl. Caiff y staff eu cyflogi gan yr ALl er bod gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb am rai swyddogaethau cyflogaeth fel penodi, gwahardd dros dro, gwahardd/disgyblu ayb.

Ysgolion Gwirfoddol a Reolir

- Bydd gan y rhan fwyaf o ysgolion yn y categori hwn nodwedd grefyddol, ond nid pob un. Caiff yr adeiladau eu dal mewn ymddiriedolaeth gan sefydliad ac mae'r ALl yn cyflogi'r staff, ar yr un sail ag ysgolion cymunedol.

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

- Y corff llywodraethu yw'r cyflogwr a'r awdurdod derbyn. Caiff yr adeiladau eu dal mewn ymddiriedolaeth gan sefydliad, eglwys fel arfer, ac mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn gyfrifol am dderbyniadau disgyblion ac addysg grefyddol.

Ysgolion sefydledig

- Y corff llywodraethu yw'r cyflogwr a'r awdurdod derbyn. Mewn ysgolion sefydledig arbennig, caiff yr adeiladau eu dal mewn ymddiriedolaeth gan sefydliad (sydd hefyd yn aml yn rhoi nodwedd grefyddol i'r ysgol), neu 'gorff sylfaen' o gyfansoddiad arbennig, neu cânt eu dal mewn ymddiriedolaeth gan y corff llywodraethu. Does dim ysgolion sefydledig arbennig yng Nghymru.

Ysgolion Cymunedol Arbennig

- yn cael eu cyllido a'u cynnal yn gyfan gwbl gan ALl ar gyfer disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig. Cyflogir y staff gan yr ALl, er bod gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb am rai swyddogaethau cyflogaeth fel penodi, gwahardd dros dro, gwahardd/disgyblu ayb.

Ysgolion Meithrin

- darparu addysg i blant sydd wedi cyrraedd dwy oed ond dan bump oed.

Ysgolion Annibynnol (hefyd yn cael eu hadnabod fel ysgolion “bonedd” neu ysgolion “preifat”) - ysgolion sydd ddim yn cael eu cynnal gan gyllid cyhoeddus.

Unedau Cyfeirio Disgyblion - Sefydliad a gynhelir gan yr ALl i ddarparu addysg ar gyfer plant sydd wedi eu gwahardd, sâl neu sydd am rhyw reswm arall yn methu â mynychu addysg prif ffrwd. Nid oes gan UCD gorff llywodraethu.

Ysgolion Ffederal – Efallai bydd cyrff llywodraethu’n dymuno ffederaleiddio â chyrff llywodraethu eraill o dan un corff llywodraethu. Mae ffederasiwn o gyrff llywodraethu yn cefnogi'r egwyddor o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd a hefyd yn caniatáu i ysgolion weithio ar draws gwahanol gyfnodau. Gall y gallu i ffedereiddio fod o les i ysgolion bach neu ysgolion gwledig gan greu cyfleoedd i rannu cyfrifoldebau rheoli a chyrff llywodraethu ond gan gadw hunaniaeth yr ysgolion unigol ar wahân.

Trosolwg o ffederaleiddio

1. Pan fydd cyrff llywodraethu'n ffederaleiddio, caiff un corff ei greu yn lle sawl corff llywodraethu.
2. Mae'r ysgolion yn parhau i fod ar wahân - yr unig wahaniaeth yw bod y corff llywodraethu ffederal yn llywodraethu mwy nag un ysgol.
3. Gall rhwng dau a phum corff llywodraethu ffederaleiddio.
4. Gall ysgolion o gategorïau gwahanol neu o wahanol ardaloedd ALl ffederaleiddio.
5. Mae'r rheoliadau ffederaleiddio’n amlinellu'r broses ar gyfer ffederaleiddio. Yn fras, rhaid i'r cyrff llywodraethu gyhoeddi 'cynnig' at ddibenion ymgynghori (o leiaf chwe wythnos) cyn penderfynu a ddylid ffederaleiddio ai peidio.
6. Nid oes gan ffederasiwn derfyn amser; gall ysgol ofyn am gael gadael y ffederasiwn ond y ffederasiwn fydd penderfynu a gaiff wneud hynny.

Cadwch olwg am enghreifftiau o astudiaethau achos y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynhyrchu cyn hir.

Am fwy o wybodaeth ewch i Bennod 21 o’r Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion http://www.governorswales.org.uk/gyfraith/ a http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/schoolgovguide/?skip=1&lang=cy

Rheoliadau Ffederaleiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/638/contents/made/welsh

3. CEFNOGAETH A HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR

Mae amrywiaeth eang o hyfforddiant a chefnogaeth ar gael ar gyfer llywodraethwyr ysgolion i'ch helpu i gyflawni eich dyletswyddau yn effeithiol. Mae gan gyrff llywodraethu nifer o gyfrifoldebau ac felly mae angen mawr am hyfforddiant. Er bod hyfforddiant a ddarperir gan ALl ac Awdurdodau Esgobaethol ar gael yn ddi-dâl, nid yw'n orfodol ond fe'i argymhellir yn gryf os ydych yn llywodraethwr profiadol neu yn newydd.

Mae'n arbennig o bwysig bod llywodraethwyr newydd yn manteisio ar yr hyfforddiant anwytho sydd ar gael. Bydd y cyrsiau hyn yn darparu cyflwyniad i brif gyfrifoldebau, rolau a thasgau'r corff llywodraethu. Mae'n bosib y bydd cyrsiau ail lefel ar gael hefyd ar lunio polisi, cynllunio datblygiad, gosod targedau a monitro i enwi ond ychydig. Bydd rhai digwyddiadau hyfforddiant hefyd yn targedu swyddogion y corff llywodraethu, h.y. y clerc neu gadeirydd y corff llywodraethu, er mwyn eu helpu i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol.

Mae gan rai rhaglenni ALl ddigwyddiadau sydd wedi eu hanelu'n benodol at helpu rhiant lywodraethwr, athrawon lywodraethwr, staff lywodraethwyr, llywodraethwyr cymunedol, llywodraethwyr sefydledig neu ALl i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â'u rolau a'u cyfraniad i'r corff llywodraethu.

Yn yr un modd, mae hyfforddiant corff llywodraethu cyfan yn declyn gwych, ac mae angen i gyrff llywodraethu ystyried yn rheolaidd beth yw eu hanghenion a sut y gall hyfforddiant eu helpu i gwrdd â'r anghenion hynny. Bydd eich Swyddog Cefnogi Llywodraethwr yn gallu cynnig cyngor i chi ar hyfforddiant. Ceir manylion yn adran 5.

4. BETH YDW I ANGEN EI WYBOD?

Mae nifer o bethau y bydd angen i chi eu gwybod i gyflawni eich rôl fel llywodraethwr yn effeithiol ond mae'n amhosib i chi ddysgu popeth ar yr un pryd. Fe fydd yn cymryd amser.

Cynhwysir rhai o'r meysydd pwysicaf yn y llawlyfr hwn. Beth am ddechrau gyda **Egwyddorion Ymddygiad ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru.**

Er mwyn i lywodraethwyr gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon mae'n bwysig i cael set o egwyddorion arweiniol, dylai llywodraethwyr:

- sicrhau bod eu gweithredoedd yn adlewyrchu yr hyn a ystyrir yn fuddiannau gorau'r ysgol a'i disgyblion;
- mynychu cyfarfodydd corff llywodraethu'n rheolaidd;
- ar ôl eu penodi, cymryd y cyfle i fynychu hyfforddiant anwytho a ddarperir gan yr ALl neu'r ysgol;
- ar ôl eu penodi, ymgyfarwyddo gyda gwaith yr ysgol a chadw'r wybodaeth hon yn gyfredol;
- cynnal eu gwybodaeth o bolisi, rheoliadau a chanllawiau addysg cyfredol ac ehangu eu sgiliau trwy gymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer y corff llywodraethu cyfan a digwyddiadau eraill;
- Arddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal ac adlewyrchu hynny wrth ddatblygu a chymhwyso'r polisïau y mae'n ofynnol i'r ysgol eu cael mewn perthynas â rhyw, gogwydd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, anabledd neu oedran (fel y diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010);
- gweithredu fel ffrind beirniadol gyda'r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau proffesiynol yn yr ysgol, gan gofio cyfrifoldeb y corff llywodraethu ei hun i hybu cyflawniad addysgol o safon uchel;
- bod yn ymwybodol o, a gweithredu o fewn, cyfyngiadau cyfrifoldebau'r corff llywodraethu a, ble bo angen, chwilio am a rhoi ystyriaeth ddigonol i wybodaeth, cyngor a chanllawiau proffesiynol;
- parchu'r cyfrifoldeb sydd ar y pennaeth i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd i reoli'r ysgol;
- ufuddhau i gyd gyfrifoldeb trwy gefnogi penderfyniadau democrataidd y corff llywodraethu;
- parchu hawl y corff llywodraethu i drin rhai materion yn gyfrinachol, gan gyfyngu trafod y fath faterion, naill ai o fewn neu'r tu allan i gyfarfodydd y corff llywodraethu yn unig, i gyd lywodraethwyr ac mewn achosion addas o fewn pwyllgorau'r corff llywodraethu yn unig;
- datblygu gweledigaeth eglur ar gyfer yr ysgol gyda chydweithwyr ar y corff llywodraethu;

- sicrhau bod eu cyfraniad i benderfyniadau corff llywodraethu yn canolbwyntio ar yr hyn sydd o fudd gorau i'r disgyblion, a bod yn ymwybodol y dylai lles disgyblion fod yn flaenoriaeth bob amser o ran amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a helpu pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn;

- annog a chyfranogi mewn systemau sy'n darparu cyfathrebu agored ac effeithiol, gan helpu i sefydlu gweledigaeth eglur o ddatblygiad yr ysgol;

- bod yn ymwybodol bod pob llywodraethwr yn gyfartal a pharchu barn eraill ac adlewyrchu hynny yn ei ymddygiad wrth ddelio gyda chyd lywodraethwyr;

- bod yn ymwybodol eu bod yn atebol i rieni ac eraill yn y gymuned leol a cheisio dyfeisio deialog effeithiol gyda phawb sydd â diddordeb yng ngweithrediad a safonau'r ysgol;

- ufuddhau i bob protocol a gweithdrefn a gytunir gan y corff llywodraethu;

- bod yn agored, gonest, gwrthrychol, teg a diduedd ac yn barod i wynebu'r rhagfarnau personol a all amharu ar wneud penderfyniadau gwybodus gan gynnwys gwrthdaro buddiannau.

Fe ddaw'r uchod yn fwy eglur wrth i chi fynd trwy'r llawlyfr.

Beth yw fy atebolrwydd cyfreithiol fel llywodraethwr?

Dyma gwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml gan lywodraethwyr newydd a phrofiadol. Mae cyrff llywodraethu yn gyrff corfforaethol ac felly er bod y corff llywodraethu cyfan yn atebol am yr hyn a wna, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn glir na fydd unrhyw lywodraethwyr unigol yn atebol yn bersonol am unrhyw beth y maent wedi ei wneud yn ddidwyll. Mewn geiriau eraill, fe ddylech weithredu'n ddidwyll a defnyddio gofal rhesymol a synnwyr cyffredin a gweithredu o fewn eich pwerau yn rhinwedd eich rôl fel llywodraethwr ysgol.

Os ydych yn aelod o gorff proffesiynol, fel cyfrifydd, fe all atebolrwydd godi o ganlyniad i chi gael eich ystyried i fod wedi gweithredu yn rhinwedd eich swydd broffesiynol tra hefyd yn gweithredu fel llywodraethwr ar yr un pryd. Os yw hyn yn berthnasol i chi fe fyddai'n ddoeth gofyn i'ch corff proffesiynol beth yw'r ffordd orau o ddiogelu eich buddiannau proffesiynol.
Dylai cyrff llywodraethu wirio gyda'u ALl **i sicrhau** bod cynlluniau yswiriant digonol mewn bodolaeth.

Pa ymrwymiad a ddisgwylir gan lywodraethwr?

Mae'r cyfrifoldebau a ymgymerir gan lywodraethwyr pan gânt eu penodi yn rhywbeth y mae angen i chi a'ch corff llywodraethu eu hystyried yn ofalus iawn. Bydd angen i chi allu ymrwymo eich diddordeb, brwdfrydedd ac amser i'r tasgau sydd angen eu cyflawni fel llywodraethwr. Er bod rôl llywodraethwr yn dod a gwobr a boddhad bersonol, mae'n golygu bod rhaid i chi fod yn barod i roi rhywfaint o'ch amser i'r gwaith.

Bydd disgwyl i chi:

- gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd o ddyddiad y penodiad (mae rhiant lywodraethwyr mewn ysgolion meithrin yn gwasanaethu am ddwy flynedd) er y gallwch ymddiswyddo ar unrhyw adeg y dymunwch;

- mynychu o leiaf un cyfarfod o'r corff llywodraethu yn ystod pob tymor ysgol ac efallai y bydd gofyn i chi fynychu cyfarfodydd pwyllgorau. Fe ddarganfyddwch fodd bynnag bod y rhelyw o gyrff llywodraethu'n cwrdd mwy nag unwaith y tymor, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd yr is-bwyllgorau amrywiol;

- bod yn barod i gymryd rhan fel aelod o bwyllgor gwaith neu bwyllgor llywodraethwyr o bryd i'w gilydd;

- bod yn barod i roi amser i ymweld â'r ysgol er mwyn gweld gwaith yr ysgol eich hun; mynychu cyrsiau hyfforddi a drefnir gan yr ALl sydd ar gael am ddim ac a fydd yn gwella eich sgiliau ac yn cyfrannu at eich datblygiad personol.

Alla'i gael fy nhalu am fod yn llywodraethwr?

Na, er y gall ysgolion dalu costau yn ogystal â chostau teithio a bwyd. Daw'r cyllid i dalu am dreuliau ac ati o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol, a rhaid ei ddangos yn yr adroddiad blynyddol i rieni. Am wybodaeth bellach gweler **Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005** a **Canllaw i'r Gyfraith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion.**

Alla'i gael amser o'r gwaith oherwydd fy mod yn llywodraethwr?

Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn rhoi hawl i weithwyr cyflogedig gael amser o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau swyddogol – cyn belled â bod yr amser hwnnw'n "rhesymol" yn yr amgylchiadau neilltuol. Os ydych yn gyflogedig fe ddylech holi'ch cyflogwr beth yw'r amodau ar gyfer rhyddhau gweithwyr cyflogedig o'r gwaith ac a fyddai hyn gyda neu heb dâl.

Sut all llywodraethwr sicrhau bod rhywbeth yn cael ei drafod yn y cyfarfod?

Mae angen i chi gael y mater wedi ei osod ar yr agenda er mwyn iddo gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y llywodraethwyr.

Dylech roi gwybod i'r clerc, yn ysgrifenedig, ymhell cyn dyddiad y cyfarfod.

Y peth gorau i'w wneud yw siarad gyda'r cadeirydd ac, os yn briodol, y pennaeth am faterion yr hoffech eu rhoi ar yr agenda, cyn y cyfarfod. Os oes tri neu fwy o lywodraethwyr eisiau trafod mater mae ganddynt hawl i wneud cais ysgrifenedig i'r clerc i alw cyfarfod a rhaid i'r clerc drefnu cyfarfod cyn gynted a bo hynny'n resymol ymarferol.

Ydw i'n gallu ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg?

Bydd gan lawer o ysgolion bolisi neu brotocol ar gyfer ymweliadau gan lywodraethwyr.

Dylech drefnu amser a dyddiad gyda'r pennaeth sydd yn gyfleus i chi a'r ysgol er mwyn i chi gael dysgu am waith o ddydd i ddydd yr ysgol. Dylech ddweud wrth y pennaeth am unrhyw bwrpas penodol i'ch ymweliad pan yn trefnu'r apwyntiad. Unwaith i ddyddiad eich ymweliad gael ei drefnu, ceisiwch beidio â'i newid ond os oes rhaid gohirio yna gadewch i'r ysgol wybod cyn gynted ag y gallwch.

Os ydych yn llywodraethwr, ond hefyd â phlentyn yn yr ysgol, mae'n siŵr eich bod yn ymwelydd cyson â'r ysgol yn eich rôl fel rhiant. Os felly, mae'n arbennig o bwysig eich bod chi a phennaeth yr ysgol a'r staff yn gallu gwahaniaethu'n glir rhwng eich ymweliadau 'swyddogol' fel llywodraethwr yr ysgol a'ch ymweliadau fel rhiant.

Pan gyrhaeddwch yr ysgol ar gyfer eich ymweliad rhaid i chi fynd i ddweud wrth y swyddfa neu'r ysgrifennydd eich bod wedi cyrraedd. Mae hyn nid yn unig yn fater o gwrteisi i'r pennaeth a'r staff, ond hefyd yn cyfrannu at ddiogelwch yr ysgol.

Bydd y mwyafrif o athrawon wrth eu bodd yn cwrdd â llywodraethwr sy'n dangos gwir ddiddordeb yn eu gwaith a gwaith eu disgyblion. Fodd bynnag, mae'n siŵr y byddant eisiau paratoi ar gyfer eich ymweliad, er enghraifft trwy drefnu enghreifftiau o waith y disgyblion i chi eu gweld.

Bydd llawer o athrawon yn croesawu llywodraethwr yn gwylio eu gwersi ayb., fodd bynnag fe fyddwch yn ddoeth i sicrhau bob amser eich bod yn trafod dyddiad, amser a phwrpas eich ymweliad gyda'r pennaeth.

Rhaid i bwrpas eich ymweliad gael ei gytuno a'i wneud yn hysbys i aelodau staff y byddwch yn eu cyfarfod. **Nid** arolygydd mohonoch ac **ni** ddylech ymddwyn fel y byddech yn disgwyl i arolygydd ymddwyn.

Os oes gan lywodraethwyr bryder yn codi o ganlyniad i'r ymweliad fe ddylent godi'r mater gyda'r pennaeth yn hytrach na gwneud sylwadau'n uniongyrchol i'r staff neu'r disgyblion. Yn gyffredinol fodd bynnag, mae llywodraethwyr yn cael profiad cadarnhaol a chyfoethog pan yn ymweld â'r ysgol. Fe all fod o help i'r corff llywodraethu os yw llywodraethwyr unigol yn rhoi adroddiad byr hymweliad â'u hysgol yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethu. Mae'n ddefnyddiol os yw cyrff llywodraethu'n cytuno i gynhyrchu fformat safonol ar gyfer adrodd yn ôl.

Dylech weithio i sefydlu perthynas gyda staff sy'n cynnig cefnogaeth a beirniadaeth adeiladol ble bo'n addas. Mae'r berthynas yn annhebygol o fod yn gynhyrchiol os nad yw staff yn eich gweld fel rhywun sy'n haeddu eu hymddiriedaeth a'u hyder.

Os ydw i'n gwneud rhywbeth o'i le, alla'i gael fy niswyddo?

Gallwch, os ydych yn llywodraethwr sydd wedi ei benodi. Gall y person/sefydliad sydd wedi eich penodi eich diswyddo, h.y. gall yr ALl ddiswyddo llywodraethwyr ALl. Os ydych yn llywodraethwr cymunedol neu rhiant lywodraethwr wedi penodi, gall y corff llywodraethu wneud penderfyniad i'ch diswyddo. Fodd bynnag, ni allwch gael eich diswyddo gan eich cyd lywodraethwyr am nad

ydynt yn eich hoffi; neu am nad ydych yn ddigon da. Ni ellir diswyddo rhiant lywodraethwyr, na staff ac athro lywodraethwyr sydd wedi eu hethol.

Fe allwch fodd bynnag gael eich **gwahardd** rhag gwasanaethu fel llywodraethwr ond fe nodir y rhesymau am y gwaharddiad mewn cyfraith.

Gyda llaw, nid oes gan un person hawl i fod yn aelod ar fwy na dau gorff llywodraethu ... felly fe fyddech yn cael eich gwahardd rhag bod yn aelod o drydydd (oni bai bod y trydydd corff llywodraethu yn un dros dro), neu fel llywodraethwr ychwanegol a benodir gan yr ALI ar gyfer ysgol mewn mesurau arbennig.

Fodd bynnag, os bernir bod ysgol yn 'methu' ar ôl arolwg h.y. bod gan yr ysgol ddiffygion difrifol, fe all y Gweinidog Addysg a Sgiliau newid y corff llywodraethu cyfan.

Beth all fy ngwahardd?

Mae'r seiliau ar gyfer gwahardd person rhag gwasanaethu fel llywodraethwr ysgol wedi eu nodi'n glir. Fe gewch eich gwahardd rhag gwasanaethu fel llywodraethwr, er enghraifft:

- os ydych dan 18 oed ar adeg eich penodiad;
- os ydych yn methu â mynychu cyfarfodydd o'r corff llywodraethu llawn am chwe mis neu fwy (oni bai bod y corff llywodraethu wedi rhoi caniatâd i chi beidio â mynychu);
- os cawsoch eich ethol yn athro/athrawes lywodraethwr neu yn staff lywodraethwr a'ch bod yn gadael eich swydd yn yr ysgol;
- fe gewch eich gwahardd rhag parhau i fod yn llywodraethwyr cymunedol os ydych yn gymwys i fod yn athro/athrawes lywodraethwr neu staff lywodraethwr yn yr ysgol;
- os ydych yn fethdalwr neu'n cael eich cyhoeddi'n fethdalwr yn ystod eich cyfnod yn llywodraethwr;
- os ydych wedi cael, neu yn cael eich dedfrydu i garchar am gyfnod o ddim llai na thri mis neu fwy heb y dewis ddirwy;
- os ydych yn cael eich cadw dan orchymyn Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- os ydych yn gwrthod cais gan y Corff Llywodraethu am Dystysgrif Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Nid yw hwn yn rhestr diffiniol a cheir gwybodaeth bellach yn **Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (Atodiad 5).**

Atal llywodraethwyr dros dro

Gall y corff llywodraethu wneud penderfyniad i atal llywodraethwr o unrhyw gyfarfodydd y corff llywodraethu neu bwyllgor am gyfnod penodol o hyd at 6 mis. Wrth gwrs byddai hyn ond yn digwydd os yw popeth arall yn methu. Dylai'r gwaharddiad dros dro fod ar sail un neu fwy o'r canlynol:

1. os yn cael ei dalu i weithio yn yr ysgol, bod y llywodraethwr yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ymwneud â'i gyflogaeth;

2. bod y llywodraethwr yn destun gweithdrefnau unrhyw lys neu dribiwnlys, ble y gall y canlyniad olygu ei fod yn cael ei wahardd rhag gwasanaethau fel llywodraethwr yn unol â'r wybodaeth yn y Rheoliadau.

3. bod y llywodraethwr wedi ymddwyn mewn ffordd sydd ddim yn gyson gydag ethos neu gymeriad crefyddol yr ysgol ac wedi neu'n debygol o ddwyn gwarth ar yr ysgol neu'r corff llywodraethu neu ei swydd;

4. bod y llywodraethwr yn torri ei ddyletswydd cyfrinachedd i'r ysgol neu i unrhyw aelod o staff neu ddisgyblion yn yr ysgol.

6. SUT MAE LLYWODRAETHWYR YN CYFLAWNI EU DYLETSWYDDAU?

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu gwaith mewn sawl ffordd. Fe all rhai o'r rhain fod yn fwy cyfarwydd nac eraill. Gan fod llywodraethwyr yn cael eu hannog i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hysgolion, mae'n rhaid iddynt:

1. mynychu cyfarfodydd, pwyllgorau ac o bryd i'w gilydd efallai gymryd rhan mewn gweithgorau;

2. ymweld â'r ysgol fel y gallant fod yn dyst i ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac ymddygiad y disgyblion;

3. cyflwyno gwybodaeth i rieni a derbyn eu hymateb a barn;

4. bod yn ymwybodol o'r tueddiadau a datblygiadau mewn addysg ac yn arbennig o unrhyw newidiadau yn y gyfraith sy'n effeithio ar ysgolion;

5. dod yn rhan o dîm effeithiol o lywodraethwyr all wneud y defnydd gorau o'u talentau unigol a'u cryfderau fel tîm;

6. gosod amcanion ar gyfer y pennaeth, a mabwysiadu a gweithredu polisi cyflog ar gyfer yr holl staff;

7. cymryd rhan yn arolwg eu hysgol a llunio cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad yr arolwg.

8. gynnal cyfrinachedd pan ofynnir iddynt.

Nid yw hon yn rhestr derfynol!

7. BETH YN UNION MAE LLYWODRAETHWYR YN EI WNEUD?

Y rôl atebol

Mae llywodraethwyr yn gweithio ar y cyd gyda phennaeth a staff yr ysgol i sicrhau bod ysgolion yn addysgu a dysgu ein plant yn llwyddiannus a chodi safonau.

Mae cyrff llywodraethu'n bodoli fel bod ysgolion yn atebol yn gyhoeddus i rieni, yr ALl a'r gymuned leol am yr hyn a wnânt, am y canlyniadau a gânt, ac am y ffordd y mae'r adnoddau'n cael eu dyrannu.

Disgwylir i lywodraethwyr:-

1. Cytuno ar amcanion a gwerthoedd yr ysgol

- cytuno ar yr hyn y mae'r ysgol yn ceisio ei gyflawni ar gyfer y plant a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu;
- penderfynu pa agweddau o fywyd ysgol sydd yn fwyaf pwysig i ddatblygiad plant a sicrhau bod y rhain yn cael eu rhannu gyda rhieni ac eraill yn y gymuned leol, er enghraifft:
  - ymddygiad disgyblion;
  - datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion;
  - cyfle cyfartal a pherthynas dda;
  - diogelwch yr ysgol.

2. Cytuno ar bolisïau yn ymwneud â nodau, dibenion ac ymarferion yr ysgol.

Isod ceir rhestr o bolisïau a dogfennau statudol angenrheidiol a ddiweddarwyd yn ogystal â pholisïau a dogfennau a argymhellir:

POLISIAU STATUDOL (Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gyrff llywodraethu eu pennu, mabwysiadu a'u gweithredu)
POLISI DERBYN Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig (Ysgolion Cymunedol ac wedi eu Rheoli os yw'r ALl yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb iddynt) - *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (SSFA)1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002* - *Y Cod Derbyn i Ysgolion (Cod Statudol Rhif: 002/2009)* - *Y Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion (Cod Statudol Rhif: 003/2009)*
POLISI CODI TÂL Pob ysgol (Dylai Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol ymgynghori gyda'u ALl) *Arweiniad i Gyrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol, Llywodraeth Cymru*

POLISI AMDDIFFYN PLANT

Pob ysgol

- *Deddf Addysg 2002, Adran 175*
- *Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc – Cylchlythyr Rhif: 34/2002*
- *Diogelu Plant mewn Addysg – Cylchlythyr Rhif: 005/2008*

GWEITHDREFNAU CWYNO

Pob ysgol

- *Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002*
- *Gweithdrefnau Cwyno Corff Llywodraethu Ysgol - Cylchlythyr Rhif: 03/2004*
- *Canllaw i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ar Weithdrefnau ar Gwynion yn Cynnwys Disgyblion - Cylchlythyr Rhif: 39/2006*

POLISI CWRICWLWM

Pob ysgol

- *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith)(Cymru) 2000*
- *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith)(Diwygio) (Cymru) 2002*
- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu – gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig, Llywodraeth Cymru*

POLISI CYDRADDOLDEB

Pob ysgol

- *The Deddf Cydraddoldeb 2010*
- *Cynllunio ar gyfer Cynyddu Derbyniadau i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau – Cylchlythyr 15/2004*
- *Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn Ysgolion, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2007*
- *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion – Cylchlythyr Rhif: 47/2006 (Paragraffau 2.8-2.12)*
- *Gweler Canllaw i'r Gyfraith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion am restrau deddfwriaethol perthnasol (Pennod 9)*

POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Yn cynnwys gwybodaeth am addysg plant ag anghenion meddygol a rheoli meddyginiaethau

Mae'r ALl yn gyfrifol am lunio'r polisi mewn Ysgolion Cymunedol, Ysgolion Cymunedol Arbennig ac Ysgolion a Reolir.

- *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol, Llywodraeth Cymru*
- *Gweler Canllaw i'r Gyfraith ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion am restrau deddfwriaethol perthnasol (Pennod 25)*

POLISI CYFLOGAU

Pob ysgol

Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol

RHEOLAETH PERFFORMIAD

Pob ysgol

- *Rheoliadau Llywodraethu Ysgol (Cylch Gwaith) (Diwygiad) (Cymru) 2002*
- *Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002*
- *Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygiad Rhif 2) 2009*

DISGYBLAETH DISGYBLION (YN CYNNWYS POLISI GWRTH FWLIAN)

Pob ysgol

- *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998*
- *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion - Cylchlythyr Rhif: 47/2006 (Adran 3)*
- *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-Fwlio 2011, Llywodraeth Cymru*

AMSEROEDD SESIYNAU YSGOL

Rheoliadau Newid Amseroedd Sesiynau Ysgol (Cymru) 2009

POLISI ADDYSG RHYW

Rhaid i bob ysgol uwchradd ddarparu addysg rhyw a chadw cofnod ysgrifenedig. Nid yw'n ofynnol mewn ysgolion cynradd ond fe allant benderfynu cynnwys addysg rhyw neu ddim yng nghwricwlwm yr ysgol a chadw cofnod ysgrifenedig.

Adran 352 (1) (c) o Ddeddf Addysg 1996
Canllawiau ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, Llywodraeth Cymru

POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Pob ysgol

- *Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru) 1999*
- *Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002*
- *Llawlyfr o Arferion Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig, Llywodraeth Cymru*
- *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*

GWEITHDREFNAU DISGYBLU, YMDDYGIAD, GALLU A CHWYNION STAFF

Pob ysgol

- *Adran 35 a 37 o Ddeddf Addysg 2002*
- *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006*
- *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007*

DOGFENNAU STATUDOL

(Mae'n ofynnol yn gyfreithiol ei bod yn ddyletswydd ar y corff llywodraethu i'w cynhyrchu, mabwysiadu a'u cyhoeddi)

CYNLLUN HYGYRCHEDD

- *Deddf Cydraddoldeb 2010*
- *Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau - Cylchlythyr 15/2004*

CYNLLUN GWEITHREDU'N DILYN AROLWG YSGOL

Pob ysgol

- *Deddf Addysg 2005* (*Rhan 4, Adrannau 39 a 43)*
- *Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006*

GWYBODAETH A CHYFARWYDDYD GYRFAOEDD

Rhaid i bob ysgol uwchradd ddarparu addysg cysylltiedig â gwaith yn ystod cyfnodau allweddol 3 a 4.

Adran 101 o Ddeddf Addysg 2002

CYNLLUN CYHOEDDI RHYDDID GWYBODAETH

Pob ysgol

- *Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*
- *Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Cynllun Cyhoeddi Model i Ysgolion – Cylchlythyr Rhif: 09/2004*

LWFANSAU LLYWODRAETHWYR (CYNLLUNIAU AR GYFER TALU)

Pob ysgol (ble mae cyrff llywodraethu'n cytuno i dalu treuliau)

- *Adran 19(3) o Ddeddf Addysg 2002*
- *Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005*

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RIENI

Pob ysgol

- *Adran 30 o Deddf Addysg 2002*
- *Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion 2011 a chanllawiau cysylltiedig*

Ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr 2010-2011

- *Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol 2001*
- *Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr – Cylchlythyr Rhif: 15/2001*

CYTUNDEBAU CARTREF-YSGOL

Pob ysgol

- *Adrannau 110 ac 111 o SSFA 1998*
- *Cytundebau Cartref-Ysgol: Canllawiau i Ysgolion: Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 27/99*

OFFERYN LLYWODRAETHU

Pob ysgol

- *Adran 20 o Ddeddf Addysg 2002*
- *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005*
- *Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005*
- *Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010*

COFNODION O A PHAPURAU A YSTYRIR YNG NGHYFARFODYDD Y CORFF LLYWODRAETHU A'I BWYLLGORAU

Pob ysgol

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
N.B. Ar wahân i gyfeiriadau at faterion y mae'r corff llywodraethu yn ei bennu'n gyfrinachol

PROSBECTWS YSGOL

Pob ysgol

- *Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 a chanllawiau cysylltiedig*
- *Prosbectysau Ysgolion – Cylchlythyr Rhif: 14/2001*

COFRESTR DISGYBLION

Pob ysgol

- *Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010*

COFRESTR O FUDDIANNAU BUSNES Y PENNAETH A'R LLYWODRAETHWYR

Pob ysgol

- *Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010*

GOSOD TARGEDAU AR GYFER YSGOLION

Pob ysgol

- *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 a chanllawiau cysylltiedig*

CYNLLUN PONTIO

Pob ysgol uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.

- *Deddf Addysg 2002*
- *Rheoliadau Pontio Rhwng yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006*
- *Canllaw ar Baratoi Cynlluniau Pontio Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 – Cylchlythyr Rhif: 30/06*

*D.S. Mae'r polisïau a restrir yn rai y mae'n ddyletswydd ar gyrff llywodraethu ysgolion i'w cynhyrchu a'u mabwysiadu ar gyfer eu hysgolion. Nid ydynt i'w cymysgu gyda pholisïau eraill a bennir yn genedlaethol ac y mae'n **ddyletswydd statudol** ar gyrff llywodraethu i'w gweithredu, er enghraifft safonau maeth, gweithredoedd o addoli ar y cyd etc.

POLISIAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR
POLISI GWISG YSGOL *Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion, Llywodraeth Cymru*
DATBLYGIAD CYNALADWY Pob ysgol *Y cwricwlwm ysgol yng Nghymru*
POLISI CHWYTHU CHWIBAN Pob ysgol *Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Model - Cylchlythyr Rhif: 036/2007* *Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998*
POLISI BWYD A FFITRWYDD YSGOL GYFAN Argymhellir erbyn Medi 2008 *Cynllun Gweithredu Archwaeth am Fywyd – dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif: 026/2007*

DOGFENNAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR
CYNLLUN DATBLYGU/GWELLIANT YSGOL Pob ysgol (Ystyrir yn ddogfen hanfodol yn cyfrannu tuag ar y gwaith o godi safonau)
CYNLLUN DATBLYGU LLYWODRAETHWYR Pob Ysgol
ADRODDIAD HUNAN-WERTHUSO YSGOL Pob Ysgol *http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/arweiniad-arolygu/*

3. Dylanwadu ar a chymeradwyo Cynllun Datblygu Ysgol neu Gynllun Gwella Ysgol a chymeradwyo a monitro dyraniad a gwariant cyllideb yr ysgol

Gwneud cynlluniau fel y gall amcanion yr ysgol a'r cwricwlwm cenedlaethol gael eu cyflawni gan ddefnyddio'r arian sydd ar gael i wneud hyn. Pan fo ysgolion yn derbyn eu dyraniad o arian bob blwyddyn, mae llywodraethwyr yn aml yn teimlo nad yw'r gyllideb yn ddigonol i ddarparu ar gyfer popeth sydd ei angen ar yr ysgol, neu i gwrdd â dyheadau rhieni a staff.

Bydd y corff llywodraethu, neu bwyllgor llai o'r llywodraethwyr, yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â faint o arian sydd i'w wario ar beth. Er enghraifft, gwariant ar gyfer offer, trwsio, cyflogau staff ayb. Fodd bynnag, y pennaeth sy'n gyfrifol am yr arian o ddydd i ddydd ac ni fydd angen i chi brynu na chyfri'r pensiliau! Ceir mwy o wybodaeth yn Rhan 4.

4. Sicrhau bod y cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei ddysgu a bod digon o staff ar gael i'w ddysgu

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn nodi'r pynciau craidd y mae'n rhaid i bob ysgol eu dysgu yn ôl y gyfraith, ynghyd â'r safonau y disgwylir i blant eu cyflawni pan yn cael eu hasesu ar wahanol oedrannau (gweler Rhan 4).

5. Monitro ac adolygu cynnydd yr ysgol

Mae gan y corff llywodraethu ddyletswyddau clir ar y cyd gyda'r pennaeth i sicrhau bod safonau yn gwella. Bydd angen i'r corff llywodraethu adolygu'r ffordd y mae'r ysgol yn gweithio er mwyn adeiladu ar gryfderau a gwella gwendidau. Mae hyn yn gofyn am drefnu gofalus, sylwi ar waith yr ysgol, a barnu ansawdd. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Deddf Addysg 2002 yn nodi'r cyfrifoldebau statudol sydd gan gyrff llywodraethu yn cynnwys y cyfrifoldeb i sicrhau bod safonau yn codi yn eu hysgolion.

6. Sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu cwrdd, gan gynnwys anghenion ychwanegol

Mae gan rhai plant anableddau arbennig neu anawsterau dysgu ac efallai bod plant eraill yn arbennig o abl neu â doniau arbennig iawn. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw sicrhau bod yr ysgol yn talu sylw i anghenion pob plentyn. Bydd rhaid i'r corff llywodraethu ystyried darpariaeth arbennig ar gyfer plant gydag anghenion neilltuol iawn pan yn trafod cyllideb yr ysgol;

7. Recriwtio a Dewis Staff (Gweler Rhan 4)

Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am ddewis y staff y mae eisiau i weithio yn yr ysgol. Penodir penaethiaid a dirprwy benaethiaid gan banel dethol y corff llywodraethu, er bod rhaid i'r corff llywodraethu llawn gymeradwyo'r penodiad. Gellir dirprwyo dewis a phenodiad staff eraill i'r pennaeth neu un neu fwy o'r llywodraethwyr, neu un neu fwy o'r llywodraethwyr gyda'r pennaeth.

8. Rhoi gwybodaeth i rieni am yr ysgol

Y corff llywodraethu sy'n penderfynu sut i gyflwyno gwybodaeth i rieni a phobl leol eraill sydd â diddordeb yn natblygiad yr ysgol. Yn ôl y gyfraith rhaid i'r corff llywodraethu ysgrifennu adroddiad a chynnal cyfarfod gyda rhieni unwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, os yw'r ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty neu ysgol breswyl a gynhelir gyda dros 50% o ddisgyblion yn preswylio yno, gall y corff llywodraethu benderfynu nad yw'n ymarferol cynnal cyfarfod blynyddol gyda'r rhieni. Mae yna esemptiadau eraill i'r gofyniad i gynnal cyfarfod blynyddol i rieni sydd ond yn gymwys am un flwyddyn yn unig, er enghraifft:

(1) os oes cyfarfod rhieni wedi ei gynnal ar ôl arolwg ysgol, i drafod adroddiad yr arolygydd cyn i'r corff llywodraethu gynhyrchu ei gynllun gweithredu;

(2) os yw'r corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod neu gyfarfodydd ble y gwahoddwyd y rhieni i gyd ac a fynychwyd gan dri llywodraethwr neu fwy;

(3) os yw llai na 5% o rieni'n ymateb i hysbysiad sy'n cael ei anfon gyda'r adroddiad blynyddol yn gofyn a ydynt eisiau i'r corff llywodraethu gynnal y cyfarfod blynyddol.

Ffynhonnell cyfeiriad: **Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005**

Mae'r **Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2001** yn nodi sut y dylai Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i rieni gael ei lunio a pha wybodaeth sylfaenol y mae'n rhaid ei roi i rieni gael gwybod. Ceir gwybodaeth bellach yn Rhan 2.

9. Cynhyrchu cynlluniau gweithredu gwelliant yn dilyn arolwg ysgol

Ceir rhaglen gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob ysgol yn cael eu harolygu gan arolygwyr Estyn unwaith bob chwe mlynedd. Bydd yr arolygwyr yn cynnal cyfarfodydd i adrodd ar yr hyn maen nhw wedi ei ddarganfod. Lle mae angen gwelliannau mewn ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu ysgrifennu cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yr ysgol yn gwella perfformiad.

10. Sefydlu a chynnal cysylltiadau cadarnhaol gyda'r gymuned fusnes leol a'r gymuned ehangach

Mae'n fuddiol i ysgolion gael cysylltiadau da gyda busnesau lleol ac yn aml ceir pobl o fusnes lleol ar bob corff llywodraethu. Mae yna nifer o esiamplau ble y mae cysylltiadau rhwng busnesau lleol a'r ysgol, a'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach yn gallu bod o fudd i blant, staff a rhieni.

11. Cefnogi'r penderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd gan y pennaeth

Mae gan y pennaeth gyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli staff, adnoddau a disgyblion yr ysgol, o fewn y polisïau a gytunwyd gyda'r llywodraethwyr (ac mewn rhai achosion, gan yr ALl). Dylai penderfyniadau pennaeth adlewyrchu polisïau penodol y mae'r corff llywodraethu wedi cytuno arnynt o flaen llaw.

12. Hybu effeithiolrwydd y corff llywodraethu

Efallai na fyddwch yn cytuno o bryd i'w gilydd gyda llywodraethwyr unigol, y cadeirydd neu gyda phenderfyniad y mwyafrif o'ch cydweithwyr ar y corff llywodraethu. Cofiwch mai cyrff corfforaethol yw cyrff llywodraethu, ac unwaith mae penderfyniad wedi ei wneud, mae gan bob llywodraethwr ddyletswydd i lynu at a chefnogi'r penderfyniad. Mae hon yn rheol y mae'n rhaid i chi ei dilyn gan nad oes gan lywodraethwyr unigol bwerau yn ôl y gyfraith i weithredu'n unigol. Ar yr un pryd, mae anwybyddu penderfyniadau a chyfrifoldebau'r corff yn ffordd lwyddiannus iawn o wneud eich hun yn amhoblogaidd gyda bron pawb!

Nid oes y fath beth a chorff llywodraethu na llywodraethwr unigol 'perffaith'. Bydd pob llywodraethwr weithiau'n cael profiad o deimlo nad yw'n gwybod digon, neu brofiad o ddiffyg sgiliau personol i ddelio gyda phroblem yn iawn, ac yn aml mae arnynt ofn gofyn cwestiwn. Mae hyder yn rhan o'r broblem yn aml. Daw hyder i lywodraethwyr sy'n teimlo'u bod wedi paratoi digon ar gyfer gofynion y swydd a delio gyda phethau y maen nhw'n disgwyl fydd yn codi, yn hytrach na bod heb baratoi'n ddigonol. Bydd mynychu hyfforddiant perthnasol yn magu hyder trwy'r wybodaeth a geir. Cewch gyfle hefyd i gyfarfod llywodraethwyr eraill a thrafod unrhyw bryderon.

Er mwyn i chi ddeall eich rôl fel llywodraethwr yn llawn mae'r rhan fwyaf o ALl yn cynnig rhaglenni hyfforddiant. Gall Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr ALl ddweud wrthych am y trefniadau lleol ar gyfer hyfforddiant llywodraethwyr. (Ceir rhestr o fanylion cyswllt ALl yn rhan 5).

Mae gan bob ALl Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr sy'n darparu gwybodaeth, cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i lywodraethwyr yn ogystal â threfnu hyfforddiant. Os oes gennych gwestiynau neu bryderon arbennig, gall eich Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr gynnig cefnogaeth unigol i chi. Peidiwch ag anghofio y bydd rhai o'ch cyd lywodraethwyr yn brofiadol iawn ac yn barod i'ch cynghori a'ch helpu, neu'ch rhoi ar y trywydd iawn. Gall **Llywodraethwyr Cymru** fod yn ffynhonnell ddefnyddiol hefyd yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau annibynnol i gymdeithasau llywodraethwyr, cyrff llywodraethu a llywodraethwyr unigol. Darperir llinell gymorth gyfrinachol ddwyieithog (**0845 60 20 100** – Llun - Gwener: 9.00am tan 10.00pm yn ystod yr wythnos; penwythnosau: 11.00am tan 4.00pm).

Mae Adran 5 yn rhestru rhai sefydliadau eraill sy'n bodoli er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i lywodraethwyr ac eraill â diddordeb yn y gwasanaeth addysg.

ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS A LLYWODRAETHWYR

I bwy y mae'r corff llywodraethu'n atebol?

"Mae'r pennaeth a staff proffesiynol yn atebol i'r corff llywodraethu am berfformiad yr ysgol. Rhaid i'r corff llywodraethu fod yn barod i egluro'i benderfyniadau a gweithredoedd i unrhyw un sydd a diddordeb dilys. Gall hyn gynnwys staff, disgyblion, rhieni a'r wasg; yn ogystal a'r ALl, sefydliad yr ysgol neu Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Dyfyniad o Rheoliadau Canllawiau ar Lywodraethu Ysgol (Cylch Gwaith)(Cymru) 2000 Cylchlythyr Rhif 34/2000 Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae diwygiadau addysgol olynol wedi pwysleisio rôl cyrff llywodraethu, nid yn unig yn nhermau eu cyfrifoldebau am godi safonau ond hefyd eu hatebolrwydd i rieni ac eraill yn y gymuned am eu gorolwg ar ymddygiad a safonau ysgol.

Mae nifer o'r cyfrifoldebau uniongyrchol sydd gan gyrff llywodraethu ar hyn o bryd wedi eu trosglwyddo yn gynyddol o'r ALl. Llywodraethwyr ysgolion, wedi eu penodi, eu hethol neu eu cyfethol, sy'n gyfrifol am eu hysgol o ganlyniad i'r penderfyniadau a wneir ganddynt fel aelodau o'r corff llywodraethu.

1. Rhieni

Mae'n ddyletswydd ar rieni i sicrhau bod eu plant yn mynychu ysgol er mwyn derbyn addysg llawn amser. Cyfrifoldeb yr ALl yw sicrhau bod rhieni'n cydymffurfio gyda'r ddyletswydd hon.

Mae ansawdd addysg plentyn yn dibynnu'n helaeth ar y berthynas sy'n bodoli rhwng rhieni a'r ysgol. Trwy gydol y llawlyfr hwn mae'r term 'rhiant' hefyd yn golygu unrhyw berson neu sefydliad gyda chyfrifoldebau rhiant fel y'i diffinnir dan Y Ddeddf Plant a Chylchlythyr Rhif 12/2007 **Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant**, yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithredu fel gwarcheidwaid, rhieni maeth neu fel gofalwyr.

Cyfrifoldebau'r corff llywodraethu i rieni

Wrth weithredu er budd gorau disgyblion, mae'r corff llywodraethu yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol yn y bartneriaeth ysgol/rhiant. Mae fframwaith gyfreithiol yn bodoli sydd wedi ei

gynllunio ar gyfer hybu'r bartneriaeth hon mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALl. Ymysg y cyfrifoldebau statudol penodol hyn i rieni mae:

- darparu Prosbectws Ysgol
  Dyma ddogfen y mae pob ysgol yn ei pharatoi sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i rieni darpar ddisgyblion;

- darparu Cytundeb Cartref-Ysgol
  Dyma ddogfen sy'n egluro amcanion a gwerthoedd yr ysgol; cyfrifoldebau'r ysgol tuag at y disgyblion; a'r cyfrifoldebau y mae'n disgwyl i rieni a disgyblion eu cymryd. Mae rhieni a disgyblion, yn cael gwahoddiad i arwyddo datganiad sy'n dynodi eu bod yn cydnabod a derbyn amcanion, gwerthoedd a chyfrifoldebau'r ysgol yn ogystal â'u cyfrifoldebau eu hunain;

- rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth benodol i rieni, os gofynnir amdano, am yr hyn sy'n cael ei ddysgu i'w plentyn;

- darparu crynodeb o raglen addysg rhyw yr ysgol, os gofynnir amdano, fel bod rhieni'n ymwybodol o'u hawl i dynnu eu plentyn o'r rhaglen neu o ran ohoni;

- darparu adroddiad ar ddatblygiad a chyflawniadau eu plentyn o leiaf unwaith y flwyddyn cynnal cofnodion disgybl cywir;

- cyhoeddi polisïau ynglŷn ag ymddygiad disgyblion;

- gwneud yn siŵr bod yr holl bapurau a gafodd eu hystyried yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu, sydd ddim yn gyfrinachol, ar gael i'r rhieni eu gweld yn yr ysgol;

- cyhoeddi adroddiad blynyddol am berfformiad yr ysgol a chynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni er mwyn trafod yr adroddiad;

- cyhoeddi polisi ar gyfer codi a hysbysu tâl am y gweithgareddau hynny yn yr ysgol y caniateir, yn eithriadol, i godi tâl amdanynt;

- delio yn effeithiol a theg gyda chwynion cyd weithio mewn arolygiadau.

Pan gaiff yr ysgol ei harolygu gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (Estyn), rhaid i'r corff llywodraethu drefnu cyfarfod rhwng rhieni a'r Arolygydd Cofrestredig sy'n arwain y tîm arolygu. Rhaid sicrhau hefyd bod adroddiad yr arolwg a'r cynllun gweithredu a lunnir gan y corff llywodraethu mewn ymateb ar gael i rieni.

Sicrhau trefniadau ar gyfer ethol rhiant lywodraethwyr

Rhaid i gyrff llywodraethu gynnwys nifer penodedig o riant lywodraethwyr wedi eu hethol.

Perthynas ysgolion gyda rhieni

Er bod y fframwaith gyfreithiol i gefnogi'r bartneriaeth ysgol/rhiant yn bwysig, mae gan nifer o gyrff llywodraethu drefniadau eraill mewn bodolaeth sy'n sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth, ymgynghoriad a chael eu cynnwys yng ngwaith yr ysgol. Y pennaeth sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r trefniadau hyn, fel rhan o reolaeth yr ysgol o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y

corff llywodraethu, ar y cyd gyda'r pennaeth, yw adolygu pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn wrth hybu perthynas ysgol/rhiant dda. Mae angen sylw arbennig ar rai agweddau o'r berthynas:

- Cymdeithas Rhieni Athrawon (PTA)
  Mae PTA, neu gorff tebyg, yn cynnig cyfle i rieni fynegi eu hymroddiad i'r ysgol ac i godi arian i'r ysgol mewn modd gadarnhaol, ac fe all fod yn gyfle da i glywed barn rhieni;

- Delio gyda phryderon rhieni
  Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod trefniadau'n bodoli sy'n golygu bod rhieni sydd eisiau holi ynglŷn â datblygiad, ymddygiad neu les eu plentyn yn gallu gwneud hynny gyda staff yn effeithiol ac effeithlon;

- Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod ganddo bolisi clir ynglŷn ag ymweliadau rhieni gyda'r ysgol;

- Rhaid bod gan y corff llywodraethu weithdrefn mewn bodolaeth ar gyfer delio gyda chwynion gan rieni.

Hawliau Rhieni

- Apelio
  Mae gan rieni hawl i apelio yn dilyn penderfyniadau ynghylch derbyn a gwahardd.

  (i) Derbyn
  Mae gan rieni'r hawl i apelio i banel apêl annibynnol os yw eu cais i yrru eu plentyn i ysgol o'u dewis yn aflwyddiannus.

  (ii) Gwahardd
  Yn achos penderfyniad i wahardd plentyn, mae gan y rhieni hawl i gyflwyno achos i'r corff llywodraethu. Yn achos gwaharddiad parhaol gall rhieni apelio i banel apêl annibynnol, os yw'r pwyllgor disgyblu'n cynnal y penderfyniad i waharddiad parhaol.

- Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
  Yn ôl Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, gall rhieni gyflwyno cynrychioliadau i'r ysgol neu'r ALl ynglŷn ag AAA eu plentyn, a all olygu ystyriaeth gan y corff llywodraethu.

2. Yr ALl

Er mai corff llywodraethu ysgol a gynhelir sy'n gyfrifol am ymddygiad a safonau'r ysgol, mae'r ALl yn rhannu cyfrifoldeb gyda chyrff llywodraethu am safonau mewn ysgolion a chyfrifoldebau strategol am ddarpariaeth cyffredinol gwasanaethau addysg yn eu hardal arbennig. Mae ALl yn darparu gwasanaethau strategol a chefnogi i gyrff llywodraethu sy'n help i greu lefel o ymarferion cynllunio polisi cyffredin y mae pob ysgol yn eu rhannu.

Rhaid i gyrff llywodraethu felly barchu rôl a chyfrifoldebau eu ALl yn y ffordd y maent yn ymddwyn wrth wneud eu penderfyniadau.

Mae **Cod Ymarfer ar gyfer Perthynas AALl/Ysgol** (Swyddfa Gymreig, Mehefin 1999) yn ffynhonnell bwysig ar gyfer cyrff llywodraethu a ddylent "…. i bob pwrpas normal ddilyn ei

egwyddorion a chanllawiau". Mae'r Cod Ymarfer yn rhestru'r agweddau hynny o waith corff llywodraethu lle mae atebolrwydd i'r ALl. Yn ôl y cod, rhaid i gyrff llywodraethu:-

- cydymffurfio gyda gofynion yr ALl parthed dirprwyo;
- sicrhau bod eu hysgol yn cadw cofnodion ariannol ac adroddiadau addas;
- cydymffurfio gydag egwyddorion gwerth gorau;
- gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr agweddau o waith ble mae cyrff llywodraethu'n atebol i'r ALl, mae'r Cod Ymarfer hefyd yn nodi'n ddigamsyniol bod "ymddygiad pob ysgol a gynhelir o dan ofal y corff llywodraethu ac mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu gynnal yr ysgol gyda golwg ar hybu safonau uchel".

Er bod y Cod Ymarfer yn mynd ymlaen i bwysleisio bod "...rhaid i bob ysgol gymryd cyfrifoldeb gweithredol am ei safonau ei hun" mae'n nodi'r agweddau hynny o lywodraethu ble bo dyletswydd ar gyrff llywodraethu i gydymffurfio gyda gofynion yr ALl. Er enghraifft, rhaid i gyrff llywodraethu:-

- cytuno ar y broses o osod targedau blynyddol gyda'r ALl;
- llunio a chyhoeddi targedau cyrhaeddiad yn flynyddol;
- ymgynghori gyda'r ALl cyn dewis a phenodi staff;
- ystyried cyngor gan yr ALl cyn penderfynu ar benodi penaethiaid;
- ymateb i bryderon ysgrifenedig a godir gan yr ALl ynglŷn a pherfformiad yr ysgol neu'r pennaeth;
- rhoi gwybod i'r ALl am unrhyw weithredu y mae'r corff llywodraethu'n bwriadu ei wneud yn sgil y fath adroddiadau.

3. Disgyblion

Nid oes angen dweud, prif ystyriaeth y corff llywodraethu yw lles ac addysg y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Fe nodir mai pwrpas y corff llywodraethu yw "… gweithredu yn y ffordd fydd yn gwasanaethu disgyblion yr ysgol orau" *(Cod Ymarfer Perthynas AALl/Ysgol)*

Bydd llawer o bwysau arnoch fel aelod o gorff llywodraethu ysgol ac fe fyddwch yn helpu i wneud llawer o benderfyniadau ynglŷn â'r ysgol. Mae'n hawdd ymgolli yn y busnes rheolaidd sydd angen ei wneud, felly, bob yn hyn a hyn, atgoffwch eich hun mai gwir bwrpas eich rôl fel llywodraethwr yw lles y disgyblion yn eich ysgol. Pryd bynnag y byddwch yn gwneud penderfyniad fe fydd bob amser yn cael rhywfaint o effaith ar blant unigol.

4. Y Gymuned

Mae cyrff llywodraethu yn:

- "… atebol i'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu" (Cod Ymarfer Perthynas AALl/Ysgol);
- cyfrifol am benodi llywodraethwyr i gynrychioli'r gymuned;

- cyfrifol am wneud penderfyniadau (mewn partneriaeth gyda'r ALl) am ddefnydd o'r ysgol gan y gymuned.

Efallai y dylai cyrff llywodraethu a llywodraethwyr unigol ystyried weithiau i ba raddau y mae penderfyniadau arbennig a wneir ganddynt wedi bod o fudd gweledol i ddisgyblion.

5. Llywodraeth Cymru

Mae'r miloedd o lywodraethwyr sy'n gwasanaethu ar gyrff llywodraethu wedi cael eu disgrifio fel "… byddin o wirfoddolwyr di-dâl". Gwirfoddolwyr yw llywodraethwyr ac maen nhw'n gweithredu heb dâl. Maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod polisïau'r Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn cael eu gweithredu'n lleol a rhaid iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn ôl deddfwriaeth y DU.

Yn achos Llywodraeth Cymru, rhaid i gorff llywodraethu:-

- cydymffurfio gyda rheoliadau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion ac addysg;
- parchu Cod Ymarfer Perthynas AALl/Ysgol;
- cadw at ei gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru pan fo'r ysgol a lywodraethir yn destun
- mesurau arbennig yn dilyn arolwg gan Estyn;
- cydweithio gyda Estyn ynglŷn â threfniadau ar gyfer arolygu'r ysgol;
- gosod a chyhoeddi targedau;
- gweithredu'n rhesymol wrth gyflawni ei fusnes a'i gyfrifoldebau.

** Cod Ymarfer ar Reoliadau AALl/Ysgol*

Rhannu Cyfrifoldebau – sut mae llywodraethwyr yn gyfrifol ac yn atebol